This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

RHEOLIADAU A GWEITHDREFN CWYNION MYFYRWYR 2023/2024

Teitl: Rheoliadau Cwynion Myfyrwyr					
Fersiwn	**Dyddiad Cyhoeddi**	**Disgrifiad o'r Adolygiad**	**Awdur**	**Cymeradwywyd Gan a'r Dyddiad**	**Dyddiad Adolygu Nesaf**
1.0	Medi 2019	Rhifyn Cyntaf	Siobhan Coakley	Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Academaidd 4 Awst 2019	Mehefin 2020
2.0	Medi 2020	Ail Rifyn	Siobhan Coakley	Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Academaidd	Mehefin 2021
3.0	Medi 2021	Trydydd Rhifyn	Gwenllian Jones	Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Academaidd 19 Mai 2021	Mehefin 2021
4.0	Medi 2022	Pedwerydd Rhifyn	Siobhan Coaskley	Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Academaidd	Mehefin 2023
5.0	Medi 2023	Pumed Rhifyn	Siobhan Coaskley	Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Academaidd	Mehefin 2024

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

RHAN A: RHEOLIADAU

ADRAN A1: CYFLWYNIAD

1.1 Mae Prifysgol De Cymru wedi ymrwymo i ddarparu addysg a chymorth o ansawdd uchel i'w myfyrwyr. Mae llawer o lwybrau ar gael i fyfyrwyr godi unrhyw bryderon neu broblemau sydd ganddynt. Mae'r Brifysgol yn croesawu adborth ynglŷn â'i darpariaeth, fel y gall ddatblygu a gwella'r gwasanaethau mae'n eu darparu.

1.2 Pan ddaw cwyn i law, mae'r Brifysgol yn ymdrechu i'w datrys mor gyflym a theg â phosibl, pa un a yw'r gŵyn yn ymwneud â gwasanaethau a ddarperir gan y Brifysgol, triniaeth gan unrhyw aelod staff, myfyriwr neu ymwelydd, neu unrhyw fater arall.

1.3 Mae Rheoliadau a Gweithdrefn y Brifysgol ar gyfer cwynion gan fyfyrwyr yn berthnasol i'r canlynol:

- Myfyrwyr sy'n astudio gyda Phrifysgol De Cymru.
- Myfyrwyr sy'n astudio yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, o ran y cyfnod adolygu yn unig.
- Cyn-fyfyrwyr, am gyfnod o 3 mis ar ôl gadael y Brifysgol (gweler hefyd adran 3.6 mewn perthynas â phrydlondeb cwynion).
- Myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau'r Brifysgol yn sefydliadau partner y Brifysgol pan fo'r cwynion yn ymwneud â materion academaidd. Os yw'r sefydliad partner yn gyfrifol am y materion, er enghraifft cyfleusterau a gwasanaethau cymorth myfyrwyr, bydd angen i'r myfyriwr gyrchu gweithdrefn gwynion y sefydliad partner ond bydd ganddo gymorth terfynol cam adolygu Gweithdrefn Cwynion Myfyrwyr y Brifysgol.
- Myfyrwyr sy'n astudio ar leoliadau gwaith, neu sy'n ymgymryd â dysgu yn y gwaith.
- Myfyrwyr sydd wedi cael caniatâd cymeradwy i fod yn absennol.
- Prentisiaid.
  (D.S. Dylid ystyried bod unrhyw gyfeiriad at 'myfyriwr/myfyrwyr' neu 'achwynydd/achwynwyr' yn golygu 'prentis/prentisiaid' hefyd. Bydd gwybodaeth adeg derbyn a chanlyniad cwynion myfyrwyr ar gyfer prentisiaid yn cael ei darparu i Ddeon y Gyfadran (neu enwebai), a fydd yn hysbysu cyflogwr y prentis.)

1.4 Nid yw Rheoliadau a Gweithdrefn y Brifysgol ar gyfer cwynion myfyrwyr yn berthnasol i'r canlynol:

- Y rheiny sy'n gwneud cais i astudio ym Mhrifysgol De Cymru.
- Achwynwyr dienw.
- Trydydd partïon. Mae'r Brifysgol yn disgwyl y dylai myfyrwyr â phryderon fod yn gyfrifol am roi gwybod am y pryderon hyn eu hunain i'r Brifysgol. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol yr ymchwilir i achwyniad gan drydydd parti. Rhaid i'r achwynydd ddarparu rhesymau dilys ar gyfer y cais hwn, ynghyd ag awdurdodiad ysgrifenedig ei fod yn hapus i'r trydydd parti weithredu ar ei ran.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

ADRAN A2: CWMPAS

Cwynion a ddaw o fewn y Rheoliadau hyn a'r Weithdrefn

Materion academaidd

2.1 Mae materion academaidd yn golygu pryderon penodol sydd o bosibl gan fyfyriwr ynghylch y ddarpariaeth cyrsiau academaidd a gwasanaethau cysylltiedig, gan gynnwys cwynion ynghylch y ffordd o gynnal a rheoli apeliadau academaidd. Ni ellir defnyddio cwynion ynghylch y ddarpariaeth a'r ffordd o gynnal cyrsiau academaidd wedi hynny fel rheswm dros apelio yn erbyn penderfyniad bwrdd asesu.

Profiad myfyrwyr

2.2 Gall myfyrwyr gwyno am unrhyw agwedd ar eu profiad yn y Brifysgol, gan gynnwys eu dysgu a'u perthynas â'r weinyddiaeth neu wasanaethau cymorth.[1]

Gwahaniaethu

2.3 Gall myfyrwyr gwyno am wahaniaethu gan y Brifysgol, yn groes i Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol. Gweler y Polisi Urddas yn y Gwaith hefyd.

Camymarfer neu amhriodoldeb

2.4 Gall myfyrwyr gwyno am bryderon ynghylch camymarfer neu amhriodoldeb yn y ffordd mae'r Brifysgol yn ymddwyn neu'n cael ei rheoli, yr ystyrir y byddai eu datgelu o fudd cyhoeddus.

Y Broses Achosion Eithriadol

2.5 Mae dyletswydd gyfreithiol ar y Brifysgol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb i ddarparu addasiadau rhesymol ar gyfer myfyrwyr anabl. Os bydd myfyriwr yn gofyn am addasiad gan y Brifysgol ac os bydd y Brifysgol yn penderfynu nad yw'r addasiad yn rhesymol, gall y myfyriwr ddefnyddio'r gweithdrefnau hyn i gwyno. Gweler hefyd y Broses Achosion Eithriadol: http://dds.southwales.ac.uk/DEQ/and/polices/.

Cwynion nad ydynt yn cael eu cwmpasu gan y Rheoliadau hyn a'r Weithdrefn

Apeliadau academaidd

2.6 Eir i'r afael ag achosion a gyflwynir gan fyfyrwyr yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan fyrddau asesu yn unol â'r Rheoliadau a'r Weithdrefn Apeliadau Academaidd. Gall myfyrwyr sy'n dymuno cyflwyno apêl geisio cyngor gan Undeb y Myfyrwyr, yr Ardal Gynghori neu'r Gwasanaethau Lles, a dylent anfon eu cyflwyniad i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr.

Trais, aflonyddu, trosedd gasineb

2.7 Dylai myfyrwyr sy'n tybio bod rhywun yn aflonyddu arnynt mewn unrhyw ffordd geisio cyngor gan Gynghorydd Urddas wrth Astudio yn y lle cyntaf. Gall Undeb y Myfyrwyr

[1] Yn achos myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau'r Brifysgol yn sefydliadau partner cydweithredol y Brifysgol, dylid ymdrin â materion y mae'r sefydliad partner yn gyfrifol amdanynt, e.e. cyfleusterau meithrinfa, drwy weithdrefn gŵynion y sefydliad partner ei hun.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

neu'r Gwasanaethau Lles helpu hefyd. Dylid codi honiadau difrifol gyda'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn y lle cyntaf.

Honiadau o gamymddwyn

2.8 Ymdrinnir â honiadau o gamymddwyn yn erbyn myfyriwr o dan Weithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr neu'r Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer. Ymdrinnir â honiadau o gamymddwyn yn erbyn aelod o staff o dan y Weithdrefn Ddisgyblu ar gyfer staff. Rhaid i fyfyrwyr sy'n dymuno codi honiadau o'r fath eu dwyn i sylw'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr.

Cwynion am Undeb y Myfyrwyr

2.9 Bydd myfyrwyr sy'n anfodlon ar eu hymwneud ag Undeb y Myfyrwyr yn cael cyfle i drafod eu cwyn gyda'r Undeb yn y lle cyntaf gan ddefnyddio'r gweithdrefnau yn Rheolau Sefydlog Undeb y Myfyrwyr. Rhoddir gwybod am y Weithdrefn bob blwyddyn i'r holl fyfyrwyr drwy gyfrwng cyhoeddiadau a/neu hysbysiadau. Ymdrinnir â chwynion yn brydlon ac yn deg ac os caiff cwyn ei chadarnhau, fe gymerir camau effeithiol i'w datrys.

2.10 Os bydd rhywun yn methu cael ateb boddhaol i'w gŵyn drwy Undeb y Myfyrwyr, neu os bydd yn honni ei fod dan anfantais o ganlyniad i ymarfer ei hawl i beidio â bod yn aelod o Undeb y Myfyrwyr, bydd ganddo/ganddi hawl i apelio at Fwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol, a fydd yn penodi person annibynnol i ymchwilio i'r gŵyn. Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn derbyn adroddiad gan y person annibynnol ac yn penderfynu ar ateb priodol i'r gŵyn, os oes modd. Bydd y weithdrefn yn cynnwys troi at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, sy'n gorff annibynnol, os na fydd y Brifysgol yn gallu rhoi ateb sy'n bodloni'r achwynydd.

Cwynion yn ymwneud â barn academaidd

2.11 Ni fydd y Brifysgol yn ystyried cwynion sy'n ymwneud â barn academaidd yn unig.

Cwynion sydd eisoes wedi cael eu hystyried

2.12 Ni fydd y Brifysgol yn ailystyried cwyn gan fyfyriwr os yw'r gŵyn honno eisoes wedi'i hystyried drwy'r Weithdrefn Gwyno i Fyfyrwyr.

ADRAN A3: EGWYDDORION CYFFREDINOL

Cyflwyno cwynion

3.1 Rhaid cyflwyno pob cwyn yn unol â'r Weithdrefn hon. Os caiff cwyn ei gwneud yn uniongyrchol i'r Is-Ganghellor, neu unrhyw uwch aelod arall o staff y Brifysgol, bydd y gŵyn yn cael ei throsglwyddo i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr, a fydd yn sicrhau ei bod yn cael ei phrosesu'n briodol.

Cyflwyno'n ddidwyll

3.2 Mae'r Brifysgol yn rhagdybio bod pob cwyn yn cael ei chyflwyno'n ddidwyll ac ni fydd yn rhoi unrhyw fyfyriwr o dan anfantais am iddo gyflwyno cwyn.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

Cyflwyno tystiolaeth

3.3 Fel arfer rhaid i gwynion gael eu cefnogi gan dystiolaeth ategol pan gânt eu cyflwyno. Rhaid darparu tystiolaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Fel arfer ni roddir ystyriaeth i gwynion nad ydynt yn darparu tystiolaeth o'r fath, oni bai bod yr achwynydd yn gallu rhoi rheswm da dros y diffyg tystiolaeth. Mae enghreifftiau o dystiolaeth yn cynnwys adroddiadau gan weithwyr proffesiynol, gohebiaeth ysgrifenedig, gwybodaeth ariannol, datganiadau tystion neu fanylion tystion y gellir cysylltu â nhw.

3.4 Os bydd achwynydd yn cyflwyno unrhyw dystiolaeth y darganfyddir wedyn ei bod yn ffug, ymdrinnir ag ef/hi o dan y Weithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr neu'r Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer.

3.5 Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod datblygiadau mewn technoleg fodern yn ei gwneud hi'n haws i bobl wneud recordiadau cudd h.y. recordiadau o gyfarfodydd neu sgyrsiau a wneir heb ganiatâd y cyfranogwyr. Mae'n debyg y bydd recordio galwadau ffôn yn groes i Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwiliol 2000/ Deddf Pwerau Ymchwiliol 2016 (fel y bo'n briodol). Os caiff cyfarfodydd wyneb yn wyneb eu recordio, mae'n debyg y bydd y deunydd a gesglir yn cael ei ddal yn groes i hawl Erthygl 8 y cyfranogwr (i fywyd preifat a bywyd teuluol) o dan y Ddeddf Hawliau Dynol a chyfreithiau diogelu data y DU. Am y rheswm hwn, ni fydd y Brifysgol yn caniatáu i recordiadau cudd gael eu defnyddio i ategu cwynion, ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol.

Yn ogystal, dim ond at y diben y cafodd ei wneud y dylid defnyddio recordiad ac ni ddylai fod ar gael i drydydd parti heb gydsyniad yr unigolyn y mae'n cyfeirio ato, oni bai bod rheswm cyfreithlon i wneud hynny.

Am y rhesymau hyn, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd y Brifysgol yn caniatáu defnyddio recordiadau o'r fath fel tystiolaeth mewn achosion cwynion myfyrwyr.

Y ffeithiau a ystyrir yw:

- I ba raddau y mae'r dystiolaeth yn berthnasol i faterion yr achos, gan gynnwys ystyried natur y dystiolaeth ac a oes tystiolaeth arall, gryfach, ar gael.
- I ba raddau y casglwyd y dystiolaeth yn anghyfreithlon neu y bydd defnyddio'r dystiolaeth yn ymyrryd fel arall â hawliau preifatrwydd.
- I ba raddau y gellir dibynnu ar y dystiolaeth o safbwynt technegol o ystyried ei bod hi'n bosibl ffugio deunydd wedi'i recordio. Mae'n bosibl y gall darparu adysgrif wedi'i chreu'n annibynnol o unrhyw recordiad fod o gymorth i gwrdd â'r gofyniad hwn.

Cyflwyno mewn pryd

3.6 Rhaid i bob cwyn gael ei chyflwyno heb fod yn fwy na thri mis ar ôl i'r mater a arweiniodd at y gŵyn ddigwydd ddiwethaf. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) ystyried ymestyn y terfyn amser hwn os oes rheswm da wedi'i gefnogi gan dystiolaeth.

Ymgysylltiad yr achwynydd â'r broses

3.7 Disgwylir y bydd achwynwyr yn ymgysylltu â'r broses mewn modd amserol. Os bydd achwynydd yn methu ymateb i gais am wybodaeth bellach neu am gyfarfod o fewn yr

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

amser a bennwyd gan yr aelod staff sy'n ymdrin â'r achos, heb roi rheswm da (er enghraifft, mae salwch yn ei rwystro rhag ymateb; dylid darparu nodyn meddyg mewn achos o'r fath), bydd y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn gohirio neu'n cau'r achos.

Amhleidioldeb mewn ymchwiliad

3.8 Bydd y Swyddog Ymchwilio fel arfer yn un o Swyddogion Ymchwilio Proffesiynol y Brifysgol. Ni fydd gan y Swyddog Ymchwilio na'r Swyddog Adolygu Cwyn unrhyw fudd materol yn y gŵyn. Efallai y bydd rhai amgylchiadau lle bydd y gyfadran neu'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn ystyried bod angen Swyddog Ymchwilio o'r tu allan i'r Brifysgol, er enghraifft lle mae angen gwybodaeth arbenigol. Mewn achosion o'r fath, bydd y partïon perthnasol yn cytuno ar unigolyn priodol.

Anhysbysrwydd

3.9 Fel rheol ni fydd y Brifysgol yn derbyn cwynion a wneir yn ddienw, oni bai bod rhesymau eithriadol pam y dylid ymchwilio i'r mater. Mewn achosion o'r fath, gall y ffordd yr ymchwilir i'r gŵyn ac yr ymatebir iddi newid. Yn ogystal, ni fydd y Brifysgol fel arfer yn ystyried datganiadau tystion, lle mae'r tyst yn mynnu ei fod yn aros yn anhysbys.

Cyfrinachedd

3.10 Bydd y Brifysgol yn prosesu'r holl wybodaeth bersonol yn unol â'i Hysbysiad Preifatrwydd ac fel y mynegir yn y Cynllun Cyfathrebu ar gyfer cwynion myfyrwyr.

3.11 Bydd cyfrinachedd yn cael ei barchu wrth gynnal pob agwedd ar y Rheoliadau a'r Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr. Fodd bynnag, bydd hawl gan unrhyw aelod staff y gwneir cwyn amdano/amdani i gael gwybod am y gŵyn a'i natur a gweld unrhyw dystiolaeth berthnasol.

3.12 Ni fydd y Brifysgol yn datgelu unrhyw wybodaeth i drydydd partïon ynghylch ymchwiliadau a chanlyniadau achosion cwynion myfyrwyr, oni bai fod eithriadau cyfreithiol o dan gyfreithiau diogelu data'r DU yn berthnasol.

Cwynion yn erbyn aelodau staff

3.13 Ar gyfer cwynion o gamymddwyn difrifol, cynhelir cynhadledd achos i benderfynu p'un a fydd yr achos yn cael ei ystyried trwy'r Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr neu drwy'r weithdrefn Adnoddau Dynol perthnasol ar gyfer staff, neu broses briodol arall. Fel arfer, os yw'r gŵyn yn ymwneud â chamymddwyn honedig aelod o staff, caiff hyn ei ystyried o dan y weithdrefn AD, tra bydd cwynion gwasanaeth a gyfeirir at aelod unigol o staff yn cael eu trin o dan y Weithdrefn Gwyno Myfyrwyr.

3.14 Lle mae achos yn arbennig o gymhleth, gall gael ei ystyried ar y cyd gan AD/SCU.

3.15 Os yw achwynydd yn anhapus â chanlyniad ystyried ei achos o dan y Rheoliadau a'r Weithdrefn Gwyno i Fyfyrwyr, gall ofyn am adolygiad o'r canlyniad ar y seiliau a nodir yn adran B4 4.2. Bydd yr achwynydd yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig o'r broses o gyflwyno'r cais am adolygiad, yn dibynnu ar y broses a ddilynwyd.

3.16 Os yw achwynydd yn anhapus â chanlyniad ystyried ei achos o dan weithdrefn Adnoddau Dynol, gall gyflwyno cwyn o dan y Rheoliadau a'r Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr am y broses a ddilynwyd.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

3.17 Unwaith y bydd y weithdrefn/proses fewnol wedi dod i ben, bydd yr achwynydd yn cael Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau, a fydd yn ei alluogi i wneud cais i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA) ar gyfer Addysg Uwch am adolygiad o'i gŵyn, ar yr amod bod y gŵyn y maent yn mynd â hi i'r OIA yn gymwys o dan ei Rheolau.

Cwynion yn erbyn uwch aelodau staff

3.18

Testun y gŵyn	**Pwy fydd yn ymdrin â'r gŵyn**
Deon y Gyfadran	Dirprwy Is-Ganghellor
Pennaeth Adran[2]	Dirprwy Is-Ganghellor
Dirprwy Is-Ganghellor	Is-Ganghellor
Is-Ganghellor	Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr

Cwynion grŵp

3.19 Os caiff cwyn ei chyflwyno gan grŵp o fyfyrwyr, dylid enwebu un aelod o'r grŵp yn brif gyswllt ac yn llefarydd. Rhaid i bob aelod o'r grŵp gadarnhau yn ysgrifenedig eu bod yn dymuno i'r unigolyn enwebedig weithredu ar eu rhan a bod y gŵyn yn adlewyrchu eu pryderon. Bydd y llefarydd enwebedig yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am y gŵyn ar ran y grŵp. Bydd pob aelod o'r grŵp yn derbyn copi o'r llythyr sy'n rhoi'r canlyniad.

Cwynion gan fyfyrwyr ar leoliadau

3.20 Amgylchiadau'r gŵyn fydd yn penderfynu ai'r Brifysgol neu ddarparwr y lleoliad fydd yn ymdrin â'r gŵyn. Os yw'n fwy priodol defnyddio gweithdrefn gŵynion darparwr y lleoliad i ymdrin â'r gŵyn, bydd yr achwynydd yn cael cymorth aelod priodol o staff y gyfadran i fwrw ymlaen â'i gŵyn.

Terfynau amser

3.21 Gellir ymestyn terfynau amser o dan y Weithdrefn ar gais yr achwynydd, pan fydd rheswm da dros wneud hynny. Er enghraifft, os oes gan achwynydd afiechyd neu os yw wedi cael profedigaeth deuluol sydd wedi ei (h)atal rhag cyflwyno ffurflen o fewn y terfyn amser a nodwyd. Os bydd achwynydd yn dymuno gwneud cais am estyniad, rhaid iddo/iddi wneud hynny yn ysgrifenedig i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr a darparu tystiolaeth berthnasol, fel nodyn meddyg, i gefnogi'i gais/chais.

3.22 Gall y Brifysgol ymestyn y terfyn amser ar gyfer ymchwilio os bydd cymhlethdod yr achos, neu amgylchiadau annisgwyl eraill, yn golygu bod angen mwy o amser i gwblhau'r ymchwiliad. Bydd yr achwynydd yn cael gwybod am y cynnydd a wnaed a'r rheswm dros unrhyw oedi.

Ymddygiad afresymol

3.23 Ni fydd cwynion y mae'r Brifysgol o'r farn, ar ôl ystyriaeth gychwynnol, eu bod yn flinderus neu fod y cwynion yn cael eu canlyn mewn ffordd afresymol o daer, yn cael eu hystyried a gallent arwain at gymryd camau o dan y Weithdrefn Ymddygiad

[2] Mae hyn yn golygu aelod o uwch staff o adran gwasanaethau proffesiynol; er enghraifft Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Cofrestrydd Academaidd, Ysgrifennydd y Brifysgol, ac ati.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

Myfyrwyr neu'r Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer. Yn y cyd-destun hwn, mae 'afresymol o daer' yn golygu, er enghraifft, bod y gŵyn yn cael ei gwneud mewn ffordd obsesiynol, ormodol neu ailadroddus, ac yn cael effaith negyddol iawn ar gydweithwyr neu waith y Brifysgol, neu a allai gael ei ystyried yn aflonyddu. Efallai ei bod hi'n cael ei dilyn mewn ffordd sy'n llesteirio gallu'r Brifysgol i gynnal ei Gweithdrefn Gwynion. Cwyn y mae'r Brifysgol yn ystyried ei bod yn ceisio tarfu neu beri annifyrrwch, neu sy'n galw am wneud iawn heb fawr ddim pwrpas na gwerth, yw 'cwyn flinderus'.

3.24 Os bydd y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) o'r farn bod cwyn yn cael ei chanlyn mewn ffordd afresymol o daer neu flinderus, ysgrifennir at yr achwynydd a rhoddir gwybod iddo/iddi na fydd y Brifysgol yn ystyried y gŵyn ymhellach. Rhoddir rhesymau dros y penderfyniad hwn ac anfonir llythyr Cwblhau Gweithdrefnau'r Brifysgol.

3.25 Pan fydd myfyriwr yn ymddwyn yn afresymol yn ei ryngweithio â staff y Brifysgol, bydd yn cael y Canllawiau Ymddygiad Annerbyniol a gellir cymryd camau gweithredu fel yr amlinellir yn y ddogfen hon.

Cyfeirio at weithdrefnau eraill

3.26 Mewn rhai achosion, er enghraifft pan fydd bygythiad o niwed difrifol, neu lle ceir arwyddion o ofid sylweddol, gall y Brifysgol benderfynu gohirio'r Weithdrefn hon tra bydd yn aros am gyngor pellach, neu gall gyfeirio'r achwynydd at y Weithdrefn Cymorth i Astudio. Mewn achosion o'r fath, gall natur a hyd yr ymchwiliad olygu bod angen addasu'r ffurf arferol, neu gellir ei hatal tra'n aros am ganlyniad ymchwiliadau o dan y Weithdrefn Cymorth i Astudio.

3.27 Gall y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) gyfeirio cwyn, neu elfennau o gŵyn, i'w thrin/trin o dan reoliadau neu weithdrefnau eraill y Brifysgol os ystyrir bod hynny'n briodol.

Baich a safon y prawf

3.28 Mae baich y prawf yn penderfynu pwy sy'n gyfrifol am brofi mater. Ar gyfer apeliadau academaidd, y myfyriwr sy'n gyfrifol am faich y prawf. Mae safon y prawf ar sail cydbwysedd tebygolrwydd, hynny yw ei fod yn fwy tebygol na pheidio bod y materion a arweiniodd at yr apêl wedi digwydd.

Derbynioldeb cwynion

3.29 Ni ellir ailgyflwyno materion a ystyriwyd yn flaenorol o dan Reoliadau a Gweithdrefn Cwynion Myfyrwyr y Brifysgol fel cwyn newydd yn ddiweddarach.

3.30 Ni ellir defnyddio materion a ystyriwyd yn flaenorol o dan Reoliadau a Gweithdrefn Apeliadau Academaidd fel sail ar gyfer cwyno.

ADRAN A4: CAMAU WRTH YMDRIN Â CHWYNION MYFYRWYR AC AMSERLENNI CYSYLLTIEDIG

Mae tri cham i Weithdrefn Gwynion y Brifysgol, sef:

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

Datrysiad Cynnar

4.1 Rhaid i unrhyw bryderon a all fod gan fyfyriwr gael eu codi heb fod yn hwyrach na 3 mis ar ôl i'r mater a arweiniodd at y gŵyn ddigwydd ddiwethaf (gweler adran B2 y Weithdrefn).

Ymchwiliad Ffurfiol

4.2 Bydd un o dîm Swyddogion Ymchwilio'r Brifysgol, uwch aelod o staff heb unrhyw gysylltiad blaenorol â'r achos, yn ymchwilio i gŵyn ffurfiol. Bydd yr ymchwilio fel arfer yn cael ei gwblhau o fewn 40 diwrnod gwaith, gyda'r adroddiad terfynol yn cael ei ddarparu i chi o fewn 10 diwrnod gwaith ychwanegol (gweler adran B3 y Weithdrefn).

Adolygiad

4.3 Gall achwynwyr wneud cais am adolygiad o ganlyniad cwyn, ar yr amod eu bod yn bodloni'r seiliau a nodir yn adran B4 4.2 y Weithdrefn. Bydd y cam adolygu fel arfer yn cael ei gwblhau o fewn 15 diwrnod gwaith (gweler adran B4 y Weithdrefn).

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

RHAN B: GWEITHDREFN

ADRAN B1: CYNGOR A CHYMORTH

Cyngor a chymorth i fyfyrwyr

1.1 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddiogelu lles emosiynol, meddyliol a chorfforol pawb dan sylw yn ystod gweithredu ei Gweithdrefn Cwynion Myfyrwyr. Mae cyngor a chymorth ar gael gan y canlynol:

Undeb y Myfyrwyr - http://su.southwales.ac.uk/
Gwasanaethau Lles y Brifysgol - http://thewellbeingservice.southwales.ac.uk/
Y Gaplaniaeth - http://chaplaincy.southwales.ac.uk/

1.2 Mae'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn rhoi arweiniad awdurdodol, ffurfiol ar sut mae'r Rheoliadau a'r Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr yn cael eu cymhwyso a'u gweithredu.

1.3 Caniateir i chi ddod ag unigolyn cymorth gyda chi i unrhyw drafodaethau, cyfarfodydd neu wrandawiadau, er enghraifft cynrychiolydd o Undeb y Myfyrwyr neu ffrind. Rôl yr unigolyn cymorth yw eich cynorthwyo yn ystod y cyfarfod. Fel arfer, nid eich cynrychioli, eirioli ar eich rhan na siarad drosoch chi yw eu rôl, oni chytunwyd ar hyn fel addasiad rhesymol oherwydd anabledd. Ni allwch anfon unrhyw un arall i'r cyfarfod ar eich rhan. O leiaf 48 awr cyn y cyfarfod, rhaid i chi roi gwybod i'r Brifysgol beth yw enw a statws yr unigolyn sy'n mynd gyda chi i'r cyfarfod. Argymhellir yn gryf y dylech geisio cymorth gan Undeb y Myfyrwyr neu Gaplaniaeth y Myfyrwyr, gan eu bod yn annibynnol ac yn gyfarwydd â rheoliadau a gweithdrefnau'r Brifysgol.

1.4 Mae'r Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn cadw'r hawl i wrthod cais i unigolyn cymorth fod yn bresennol os penderfynir bod achos o wrthdaro buddiannau yn gysylltiedig â'r unigolyn a enwebwyd. Yn yr achos hwn, byddwch yn cael cyfle i enwebu unigolyn cymorth gwahanol.

1.5 Nid yw'r Weithdrefn hon yn broses gyfreithiol; fodd bynnag, gall achwynydd geisio cyngor rhagarweiniol, heb ragfarn, ar gwmpas a natur y dystiolaeth y mae'n bwriadu ei chyflwyno i gefnogi achos sy'n hynod gymhleth.

1.6 Mae'r Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai), ar y cyd â'r Swyddog Ymchwilio/Swyddog Adolygu Cwynion, yn cadw'r hawl i dderbyn neu wrthod cais am berson cymorth cyfreithiol cymwys i fynychu unrhyw gyfarfodydd, yn dibynnu ar b'un a roddir rheswm da, a pha mor gymhleth a difrifol yw'r achos. Rhaid anfon unrhyw geisiadau o'r fath i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr. Os caiff cais o'r fath ei gymeradwyo, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i gael person cyfreithiol cymwys yn bresennol hefyd. Bydd personau cymorth cyfreithiol cymwys yn cael eu hysbysu'n glir o natur y trafodion, h.y. nad ydynt yn broses gyfreithiol ac na fyddant yn cael eu cynnal yn y modd hwnnw.

1.7 Lle nodir bod angen ystyried eich cwyn yn gyflym, er enghraifft pan fydd cynnydd neu oedi yn effeithio ar eich iechyd, bydd y Brifysgol yn sicrhau bod hyn yn cael ei amlygu i'r Swyddog Ymchwilio (gweler hefyd y ddogfen Cymorth i Fyfyrwyr ag Anableddau).

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

Cyngor a chymorth i staff

1.8 Cydnabyddir y gall ymdrin â chwyn, neu fod yn destun cwyn, roi staff o dan bwysau. Mae'r Brifysgol yn cynnal Cynllun Cymorth i Staff, a gellir cael manylion amdano ar y wefan Adnoddau Dynol. Yn ogystal, mae gan y Gaplaniaeth gryn brofiad o ymdrin â materion sensitif ac mae ar gael i gynnig cyngor a chymorth cyfrinachol ffurfiol ac anffurfiol.

ADRAN B2: CAM 1 – DATRYSIAD CYNNAR

2.1 Os byddwch yn pryderu am agwedd ar eich profiad yn y Brifysgol (gweler adran A2 y Rheoliadau Cwynion Myfyrwyr), mae'n rhaid i chi geisio datrys y mater yn gynnar, oni bai y gallwch roi rheswm cymhellol pam na fyddai hyn yn briodol o ystyried amgylchiadau eich achos (gweler hefyd B3 3.1). Dylech gyflwyno cwyn ffurfiol yn unig pan fydd hyn yn methu a bydd yn ofynnol i chi ddarparu tystiolaeth o ymgais i ddatrys eich pryder yn y cam datrysiad cynnar wrth fynd i'r cam ffurfiol.

2.2 Dylech godi'ch pryderon yn uniongyrchol gyda'r sawl sy'n gyfrifol. Os nad ydych yn hapus gyda'r ymateb/canlyniad, dylech wedyn godi'ch pryder gyda'r Ardal Gynghori. Gallwch gael eich cyfeirio wedyn at aelod staff arall, mwy priodol, yn dibynnu ar natur y pryder a godwyd.

2.3 Rhagwelir y bydd modd datrys llawer o bryderon ar yr adeg hon, cyn bod angen ymgymryd ag ymchwiliad ffurfiol. Os nad ydych yn fodlon fod eich pryder wedi'i ddatrys, mae gennych hawl i symud ymlaen i'r cam ffurfiol.

ADRAN B3: CAM 2 – CAM FFURFIOL

3.1 Dylech fod wedi ceisio datrys eich pryderon yn anffurfiol yn y lle cyntaf; fodd bynnag, cydnabyddir y gall fod rhai cwynion na ellir ymdrin â hwy yn anffurfiol ac y dylid symud ymlaen yn syth i ymchwiliad ffurfiol o ganlyniad. Dylid cysylltu â'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr i gael cyngor ac arweiniad ynghylch achosion o'r fath. Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol ynghylch unrhyw geisiadau am fynd yn uniongyrchol i'r cam ymchwiliad ffurfiol.

3.2 I wneud cwyn ffurfiol, dylech lenwi'r Ffurflen Gwyno (gwelir ar wefan y Brifysgol yn https://registry.southwales.ac.uk/student-regulations/student-complaints/) a'i chyflwyno i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr, ynghyd â thystiolaeth ategol briodol.

3.3 Bydd eich cwyn yn cael ei hadolygu i sicrhau ei bod yn amserol ac yn cynnwys tystiolaeth briodol. Yna caiff ei drosglwyddo i un o Swyddogion Ymchwilio'r Brifysgol; os yw hwn yn aelod o staff academaidd, ni fydd wedi ymwneud â'ch achos o'r blaen ac fel arfer bydd yn annibynnol ar y maes pwnc. Fodd bynnag, cydnabyddir y gall fod angen rhywfaint o arbenigedd pwnc o bryd i'w gilydd wrth gynnal ymchwiliadau. Os ystyrir bod hyn yn wir, y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ar benodiad y Swyddog Ymchwilio.

3.4 Bydd y Swyddog Ymchwilio yn ceisio cael tystiolaeth a gwybodaeth berthnasol trwy ba bynnag ddull sydd fwyaf cymesur, a fydd yn amrywio fesul achos. Gall y Swyddog Ymchwilio gwrdd â chi i drafod eich cwyn. Mae gennych yr hawl i gael eich cefnogi gan berson cymorth mewn unrhyw gyfarfod (gweler adrannau B1 1.3 a B1 1.4).

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

3.5 Bydd gofyn i chi gytuno ar Restr Wirio o Faterion, a fydd yn sail i'r ymchwiliad, erbyn terfyn amser penodol (y tybir y cytunwyd arno os na cheir ymateb erbyn y terfyn amser hwnnw). Bydd unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau arfaethedig i'r Rhestr Wirio ar ôl y terfyn amser penodedig yn cael eu hystyried yn ôl disgresiwn y Swyddog Ymchwilio a/neu'r Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai).

3.6 Er tegwch, bydd y rheiny y mae'r gŵyn naill ai amdanyn nhw, neu sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth neu'r gwasanaeth sy'n destun y cwyn, yn cael eu gwahodd i roi sylw ar y gŵyn cyn gynted ag y bo modd. Bydd y Swyddog Ymchwilio yn cyfarfod neu'n gohebu ag unrhyw aelodau staff a thystion perthnasol i drafod manylion y gŵyn o'u safbwynt hwy. Mae hawl gan unrhyw aelod staff sy'n destun cwyn i gael ei gefnogi gan gydweithiwr neu gynrychiolydd undeb llafur drwy gydol y broses.

3.7 Bydd y Swyddog Ymchwilio, yn ystod yr ymchwiliad, yn ystyried a ellir datrys y gŵyn heb fod angen cwblhau'r cam ffurfiol, gyda'ch cytundeb chi.

3.8 Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad, bydd y Swyddog Ymchwilio yn paratoi adroddiad ac yn ei gyflwyno i Ddeon y Gyfadran/Pennaeth yr Adran[3] (neu enwebai) (a chynrychiolydd y cyflogwr yn achos unigolion sydd wedi eu cofrestru fel prentis). Bydd Deon y Gyfadran/ Pennaeth yr Adran (a chynrychiolydd y cyflogwr yn achos unigolion sydd wedi eu cofrestru fel prentis) yn ymateb cyn cyflwyno'r adroddiad terfynol i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr.

3.9 Os yw'r canlyniad yn cynnwys cynnig o ad-daliad ariannol/iawndal, bydd y Swyddog Ymchwilio yn sicrhau bod y gyfadran/adran yn gwybod am hyn. Bydd yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn cael caniatâd y Weithrediaeth. Bydd hyn yn cael ei wneud cyn eich hysbysu am ganlyniad eich cwyn.

3.10 Bydd y Swyddog Ymchwilio yn ceisio datrys eich cwyn o fewn 40 diwrnod gwaith. Bydd gan Ddeon y Gyfadran/Pennaeth yr Adran (neu enwebai) (a chynrychiolydd y cyflogwr os yw'n berthnasol) 5 diwrnod gwaith i ateb. Bydd yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn rhoi ateb i chi o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl derbyn adroddiad y Swyddog Ymchwilio. Os bydd cymhlethdodau'r achos a'r angen i gysylltu ag amrywiaeth o unigolion wrth gynnal yr ymchwiliad yn peri anhawster yn hyn o beth, byddwch yn cael gwybod am y cynnydd a wnaed a'r rheswm dros unrhyw oedi.

3.11 Gofynnir i chi gadarnhau yn ysgrifenedig o fewn mis a ydych chi'n derbyn y canlyniad ai peidio.

ADRAN B4: CAM 3 – CAIS AM ADOLYGIAD

4.1 Os byddwch yn credu, ar ôl derbyn canlyniad yr ymchwiliad ffurfiol, fod gennych sail resymol dros ystyried nad aethpwyd i'r afael â'ch cwyn yn ddigonol, mae'n bosibl y bydd modd i chi ofyn am adolygiad. Ni allwch ofyn am adolygiad hyd nes i'r ymchwiliad ffurfiol gael ei gwblhau.

4.2 Dim ond am y rhesymau canlynol y gellir ystyried cwyn adeg adolygiad:

a) Bod gennych dystiolaeth na ddilynwyd y gweithdrefnau ffurfiol priodol a bod hyn wedi cael effaith o bwys ar ganlyniad yr ymchwiliad.

[3] Mae hyn yn golygu aelod o uwch staff o adran gwasanaethau proffesiynol; er enghraifft Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Cofrestrydd Academaidd, Ysgrifennydd y Brifysgol, ac ati.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

b) Gallwch ddangos tystiolaeth bod materion penodol yn ymwneud â'r gŵyn a godwyd gennych yn ystod y cam ffurfiol na chawsant eu hystyried.

c) Mae gennych dystiolaeth bwysig newydd nad oeddech yn gallu, am resymau dilys, ei darparu yn gynharach yn y broses. *(D.S. Ni dderbynnir rhesymau personol, teuluol neu ddiwylliannol sensitif fel rheswm da.)*

ch) Mae gennych dystiolaeth nad oedd y canlyniad yn rhesymol yn yr amgylchiadau.

d) Ni allwch gyflwyno materion newydd yng Ngham 3.

4.3 I alw am adolygiad, rhaid i chi gyflwyno 'Ffurflen Cais am Adolygiad' (a welir ar wefan y Brifysgol), sef: https://registry.southwales.ac.uk/student-regulations/student-complaints/) i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr. Rhaid cyflwyno'r ffurflen o fewn mis o dderbyn yr ymateb i'r ymchwiliad ffurfiol. Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth berthnasol wrth gyflwyno'r cais am adolygiad.

4.4 Cyn cyfeirio'r achos at Swyddog Adolygu Cwynion, bydd y Cofrestrydd Academaidd (neu enwebai) yn ystyried y Ffurflen Cais am Adolygiad er mwyn penderfynu a oes gennych sail dros ystyried y gŵyn ar yr adeg hon. Gellir cymryd un o'r camau hyn:

a) dod i'r casgliad bod y gŵyn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer rhoi ystyriaeth bellach a nodir yn B4 4.2 uchod, neu

b) wrthod yr achos.

Byddwch yn cael gwybod yn ysgrifenedig am benderfyniad y Cofrestrydd Academaidd (neu enwebai) o fewn 5 diwrnod gwaith.

4.5 Os ystyrir nad yw'r gŵyn yn gymwys i gael ei hadolygu, anfonir Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau atoch.

4.6 Os ystyrir bod y gŵyn yn gymwys i gael ei hadolygu, bydd yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn penodi Swyddog Adolygu Cwynion i adolygu'r achos. Ni fydd y Swyddog Adolygu Cwynion wedi cael unrhyw gysylltiad blaenorol â'r achos a bydd yn annibynnol ar y gyfadran/adran/Coleg.

4.7 Bydd y Swyddog Adolygu Cwynion yn adolygu'r achos ac yn cyflwyno canlyniad i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr o fewn 10 diwrnod gwaith. Os bydd hyn yn anodd oherwydd cymhlethdod yr achos a'r angen i gysylltu ag amrywiaeth o unigolion yn ystod yr ymchwiliad, rhoddir gwybod i chi am yr hyn sy'n digwydd a'r rheswm dros unrhyw oedi. Gall y Swyddog Adolygu Cwynion:

a) ddileu canlyniad yr ymchwiliad ffurfiol a chynnig canlyniad arall;

b) cyfeirio'r gŵyn ar gyfer ail ymchwiliad gan Swyddog Ymchwilio (naill ai'r Swyddog Ymchwilio gwreiddiol neu Swyddog Ymchwilio newydd); mewn achos o'r fath, bydd y gweithdrefnau o dan adran B3, gan gynnwys amserlenni, yn cael eu cymhwyso;

c) cadarnhau canfyddiadau'r ymchwiliad gwreiddiol.

4.8 Bydd yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn cysylltu â'r gyfadran/adran/Coleg mewn perthynas â'r canlyniad ac yn rhoi ateb i chi o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl derbyn adroddiad y Swyddog Adolygu Cwynion.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

4.9 Os na chaiff cwyn ei chadarnhau adeg yr adolygiad, bydd yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn anfon Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau atoch fel mater o drefn.

4.10 Os caiff cwyn ei chadarnhau neu ei chadarnhau'n rhannol adeg yr adolygiad, gallwch ofyn am Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau os ydych yn parhau'n anfodlon. Rhaid i'r cais gael ei wneud o fewn mis ar ôl hysbysu am benderfyniad y Swyddog Adolygu Cwynion.

4.11 Wrth ystyried yr achos, efallai bydd y Swyddog Adolygu Cwynion am gyfweld â chi neu aelodau staff/tystion eto, ond nid yw hyn yn ofyniad.

ADRAN B5: MONITRO

5.1 Bydd yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn monitro'r camau a gymerir mewn perthynas ag argymhellion yn codi o ymchwiliadau i gŵynion myfyrwyr. Cyflwynir adroddiad i gyfarfod blynyddol y Grŵp Gwaith Achos Myfyrwyr.

5.2 Gall y Grŵp Gwaith Achos Myfyrwyr wneud argymhellion i'w hystyried gan y Pwyllgor Dysgu, Addysgu a Gwella, y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd a'r Bwrdd Academaidd, fel y bo'n briodol, ar unrhyw faterion yn deillio o ystyried cwynion sy'n gofyn am newid y rheoliadau.

ADRAN B6: SWYDDFA'R DYFARNWR ANNIBYNNOL (OIA) AR GYFER ADDYSG UWCH

6.1 Os byddwch yn anfodlon â chanlyniad y Weithdrefn hon, gallwch, ar ôl cyflwyno Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau'r Brifysgol, gwyno i'r OIA.

6.2 Gellir cael manylion am yr OIA a'r wybodaeth berthnasol mewn perthynas â'r Cynllun yn www.oiahe.org.uk. Gellir cael gwybodaeth a chyngor pellach gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr.

ADRAN B7: Y GWASANAETH OMBWDSMON ARIANNOL

7.1 Yn dilyn cwyn am gyngor ar ddyled neu gwnsela ar ddyled a ddarparwyd gan y Brifysgol, byddwch yn cael eich hysbysu am eich hawl i ofyn am adolygiad o'ch achos gan y Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol (http://www.financial-ombudsman.org.uk/) os byddwch yn parhau'n anfodlon â chanlyniad y gweithdrefnau mewnol.

ADRAN B8: CWYNION AR Y CYD (CYFLOGWR/PRENTIS)

8.1 Os ydych chi'n brentis ac yn ceisio codi cwyn ar y cyd â'ch cyflogwr yn erbyn y Brifysgol, bydd y Brifysgol yn ystyried ffeithiau'r gŵyn ac yn penderfynu, yn ôl ei disgresiwn llwyr, y weithdrefn briodol y dylid ei mabwysiadu ynglŷn â'r gŵyn. Bydd y gŵyn naill ai'n dilyn y broses a nodir yn y Weithdrefn hon neu bydd yn dilyn y broses a nodir ym Mholisi Cwynion y Cyflogwr Prentisiaeth.

ADRAN B9: CYNGOR CYLLIDO ADDYSG UWCH CYMRU (CCAUC)

9.1 CCAUC yw'r corff rheoleiddio ar gyfer darpariaeth addysg uwch yng Nghymru. Mewn rhai amgylchiadau, gallwch wneud cwyn i CCAUC. Gellir cael rhagor o wybodaeth ar y

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

dudalen we ganlynol:
https://www.hefcw.ac.uk/working_with_he_providers/institutional_assurance/allegations_concerning_institutions.aspx